# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 17 Medi 2015** |
| Amser: | **12.45 – 14.35** |

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Cofnodion: AC(4)2015(11)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Angela Burns AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau, Comisiwn y Cynulliad**<br>**Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Nerys Evans, Pennaeth y Gwasanaeth, Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Datganiad o fuddiant

Ni chafwyd datganiad o fuddiant.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion 9 Gorffennaf yn gofnod cywir.

## 2 Cyllideb 2016-17

Ystyriodd y Comisiynwyr ddrafft terfynol dogfen y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17. Roeddent yn teimlo bod y ddogfen yn adlewyrchu'r strategaeth a'r dull gweithio yr oeddent wedi cytuno arnynt cyn toriad yr haf.

Cytunodd y Comisiynwyr ar y drafft i'w osod, gan ddiolch i'r swyddogion am yr holl waith a oedd wedi'i wneud er mwyn paratoi.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ailwampio'r Siambr

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf, yn gryno, gan y Cyfarwyddwr Adnoddau am yr hyn a gyflawnwyd yn ystod toriad yr haf o ran y cynlluniau i ailwampio'r Siambr.

Roedd gan y Comisiynwyr ddiddordeb arbennig yn yr hyblygrwydd a'r manteision y byddai'r darpariaethau newydd yn eu cyflwyno. Croesawyd y wybodaeth a'r manylion am y cynllun cyfredol yn arwain at gyfnod y Diddymiad/toriad y Pasg 2016.

## 4 Gosod Teledu Cylch Cyfyng newydd

Trafododd y Comisiynwyr gynigion i osod system Teledu Cylch Cyfyng newydd ar Ystâd y Cynulliad, gan ofyn am ragor o wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad terfynol.

## 5 Dodrefn newydd

Adolygodd y Comisiwn wybodaeth a oedd wedi'i darparu ynglŷn â'r angen i adnewyddu swyddfeydd yn Nhŷ Hywel a ddefnyddir gan Aelodau'r Cynulliad.

Cytunodd y Comisiynwyr y dylai'r gwaith o adnewyddu swyddfeydd yr Aelodau fod yn rhan o'r rhaglen dreigl barhaus o waith cynnal a chadw ar ystâd y Cynulliad.

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf a Chofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg - 9 Gorffennaf 2015

Rhoddodd y Dirprwy Lywydd wybod i'r Comisiwn am gyfarfod diweddaraf Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad, a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf.

Nododd mai prif ddiben y cyfarfod oedd cytuno ar ddrafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon. Teimlai'r Pwyllgor fod yr Adroddiad Blynyddol yn ddogfen nodedig a chynhwysfawr, a chroesawodd y ffigur alldro terfynol sef tanwariant o 0.1%.

Nododd y Comisiwn y cofnodion.

## 7 Unrhyw fater arall

Cafodd y materion canlynol eu hystyried, a chytunwyd arnynt, trwy ohebiaeth yn y cyfnod cyn y cyfarfod hwn:

- Adroddiad y Comisiwn i Aelodau ar gyfer 2014-15.